**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Is-adran Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

LGPartnerships@llyw.cymru

4 Hydref 2021

Annwyl gyfaill,

**Ymgynghoriad ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig: canllawiau statudol drafft**

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Hoffem wneud sylwadau ar un agwedd benodol o'r canllawiau drafft, hynny yw, y cymalau sy'n ymdrin â'r Gymraeg. Rydym yn cefnogi'r cyfeiriadau at hybu'r Gymraeg, gwneud yr iaith yn rhan o gynllunio'r gweithlu, darparu gwasanaethau yn ôl dewis iaith y cyhoedd a chydymffurfio â dyletswyddau a gyflwynir o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Croesawn y disgwyliad y bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cyfrannu at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn gymunedol. Croesawn hefyd y disgwyliad y byddant yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth a gyhoeddodd y Llywodraeth yn ei strategaeth, Cymraeg 2050.

Nodir y caiff Comisiynydd y Gymraeg osod safonau ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Hoffem dynnu sylw at gymal 47.8 y canllawiau drafft:

> Ar ôl sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel cyrff corfforaethol newydd, byddem yn disgwyl i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, o'r cychwyn un, wreiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain ac mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg maent yn eu darparu.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Hoffem bwysleisio pwysigrwydd gwreiddio defnydd y Gymraeg yn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig o'r cychwyn, yn enwedig yn ystod y cyfnod cyn i'r safonau gael eu gosod. Mae'n allweddol bod y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu yn unol ag amcanion Cymraeg 2050 yn syth, gan fanteisio ar y cyfle i weithredu yn gadarnhaol yng nghyd-destun y Gymraeg wrth aros i'r safonau gael eu gosod.

Ymatebodd swyddfa'r Comisiynydd i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar 4 Ionawr 2021. Nodom bryd hynny bod cyfle gwych i sefydlu'r arfer o weinyddu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig trwy gyfrwng y Gymraeg o'r cychwyn. Byddai hyn yn dilyn yr arfer sydd eisoes yn weithredol ymysg y cynghorau a/neu adrannau o gynghorau sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu yn bennaf. Dylid ymgorffori'r arfer hwn o fewn fframwaith llywodraethu a threfniadau gweinyddol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig o'r dechrau un.

Nodom yn yr un ymateb bod angen sicrhau nad yw trosglwyddo i weithio i Gyd-bwyllgor Corfforedig yn erydu cyfleoedd unigolion i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, rhaid sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig sy'n galluogi swyddogion cynghorau cyfansoddol y maent yn cydweithio â hwy i barhau i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar heb roi baich ychwanegol arnynt.

Hoffem wybod mwy am y broses o sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r amserlen arfaethedig, os gwelwch yn dda, a byddem yn falch o gael cyfarfod gyda swyddogion y Llywodraeth i drafod hyn ymhellach. Rydym hefyd yn awyddus i drefnu cyfarfodydd rhwng swyddfa'r Comisiynydd a chynrychiolwyr y Cyd-bwyllgorau Corfforedig i drafod y broses o osod safonau. Byddem yn ddiolchgar petai chi'n ymateb i'r ceisiadau hyn, os gwelwch yn dda, trwy gysylltu â Rhodri Roberts, Uwch Swyddog Rheoleiddio: Rhodri.Roberts@cyg-wlc.cymru.

Yr eiddoch yn gywir



Aled Roberts
**Comisiynydd y Gymraeg**